# Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

**2016 dccc 6**

**RHAN 4**

PWERAU YMCHWILIO ACC

**PENNOD 3**

CYFYNGIADAU AR BWERAU PENNOD 2

**98 Amddiffyniad ar gyfer deunydd newyddiadurol**

(1) Ni chaiff hysbysiad gwybodaeth ei gwneud yn ofynnol i berson ddarparu na chyflwyno deunydd newyddiadurol.

(2) Ystyr “deunydd newyddiadurol” yw gwybodaeth neu ddogfen—

(a) sydd ym meddiant rhywun a’i creodd, neu y daeth i’w feddiant, at ddibenion newyddiaduraeth, neu

(b) sydd ym meddiant rhywun a’i derbyniodd gan berson arall a fwriadai i’r derbynnydd ei ddefnyddio at ddibenion newyddiaduraeth.